

DOLEN Y TAB 94

18–19 Chwefror 2022

Bore Sul 20 Chwefror am 11

Yng nghwmni Edwyn Evans a Sylvia Davies, gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio.

Caiff yr oedfa ei ffrydio'n 'fyw' ar dudalen *Facebook* y capel a bydd modd gwyllo recordiad yn ddiweddarach naill ai ar *Facebook* neu ar *YouTube*.

Cofiwch gofrestru sedd(i) erbyn 6 nos Wener.

YR OEDFAON NESAF

Chwefror

27 Geraint Wyn Davies a Nia Williams gyda Sian Elin wrth yr organ.

Mawrth

6 Iwan Rowlands a Ceri Anwen

13 Aled Edwards a Bethan Guilfoyle

20 Rowland a Marian Wynne

27 Gethin Rhys a Huw Roberts

Hefyd ddydd Sul 20 Chwefror

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Aron Treharne, Caerfyrddin.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn y rhaglen nodir mis hanes pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywedol (LHDT) a chwrdd â Huw Jones, person ifanc sy'n falch o fod yn hoyw ac yn Gristion.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk

Rhestr Flodau

Gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau am y flwyddyn 2022 wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Mae croeso i chi dorri eich enw ar gyfer Sul sy'n gyfleus. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o Suliau gwag y medrwyd ddewis o'u plith.

Mainc Goffa

Yn ddiweddar, derbyniwyd rhodd hael gan ferched John a Margaret Clarke i ddatblygu'r cwtsh meddwlgarwch sydd wedi'i leoli rhwng cefn y capel a'r Ganolfan. Eisoës, gyda'u caniatâd hwy, fe archebwyd mainc goffa i'w gosod yn y cwtsh a dylai hon fod yn ei lle mewn da bryd ar gyfer tymor y gwanwyn. Fe gofiwch i'r ddiweddar Margaret Clarke hefyd gyflwyno'r 'grand piano' sydd yn y capel i'r Tabernacl rai blynyddoedd yn ôl pan symudodd o Efail Isaf i Riwbina i fod yn nes at ei merch Beverly. Roedd hi'n aelod o'r gynulleidfa Saesneg ac yn parhau i fynychu'r oedfaon ar ôl iddi symud.

Cylch Cadwgan

Tro y Tabernacl oedd cynnal cyfarfod Cylch Cadwgan ar nos Wener 11 Chwefror, ac un ohonom ni oedd y siaradwraig – Glenys Roberts. Roedd cryn edrych ymlaen at ei chlywed, a chafodd y gynulleidfa (rhyw 50 trwy gyfrwng Zoom) mo'u siomi. I'r gwrthwyneb, cafwyd gwledd, gyda Glenys yn cyflwyno'i hoff gerddi – o Mererid Hopwood i Ddafydd ap Gwilym gan gynnwys R. Williams Parry, Waldo Williams a T.H. Parry-Williams. Yn ogystal, darllenodd un gerdd o'i heiddo sy'n crynhoi profiad cynnes Iwan West tra oedd yn ddisgybl yn Uned Addysg Arbennig Ysgol Glantaf. Diolch yn fawr, Glenys, am ddarllen a dadansoddi rhai o'th hoff gerddi gan ymestyn a dyfnhau ein gwerthfawrogiad o brofiadau'r beirdd.

RW

Canolfan Garth Olwg Centre

Sgwrs y mis ~ Monthly talk

23.02.22 ~ 7.30-8.30

Am ddim ~ Free

Sgwrs Gymraeg arlein ~ Online Welsh talk

Bywyd yn Y Wladfa ~ Life in the Colony

gyda ~ with

Catrin Morris de Jungent ~ Catrin Morris de Jungent

Ymunwch â Catrin wrth iddi rhannu ei phrofiad o fyw yn yr Ariannin ac ym Mhatagonia'n benodol yn yr unfed ganrif ar hugain: Y wlad, y tir, y bobl, ei hanes a'i diwylliant.

Join Catrin as she shares her experience of living in Argentina and Patagonia specifically in the twenty-first century: The country, the land, the people, its history and culture.

I gadw lle ewch i:

To book a place go to:

www.bookwhen.com/gartholwg




GARTH OLGW LIFELONG LEARNING CENTRE, CF35 1BQ

Canolfan Garth Olwg Centre

gartholwgllc

01443 570 075

Yr wythnos hon fe garwn dynnu sylw at wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sydd wedi derbyn gweddnewidiad



sylweddol yn ddiweddar. Er nad yw'r llun uchod, efallai, yn gwneud cyfiawnder llawn â'r wedd ddeniadol a chyfoes sydd i'r wefan bellach, mae'n awgrymu bod prif ffenestr siop yr Undeb yn awr wedi ei bywiogi'n fawr ac yn perthyn i'r unfed ganrif ar hugain – yn enwedig o ran y defnydd effeithiol iawn a wneir o luniau a fideos.

Fel y dywed yr hen ddihareb, nid wrth ei big y mae prynu cyfflog, ac nid ar yr olwg cyntaf yn unig mae rhywun yn penderfynu a yw'r wefan newydd yn rhagori ar yr un flaenorol ai peidio. Wrth blymio ymhellach i mewn i'w chrombil, byddai'n braf gallu adrodd pa mor rhwydd yw hi i lywio'ch llwybr o adran i adran heb gollu eich ffordd – sy'n fendith fawr wrth syrffio am wybodaeth neu eitem benodol. Ond, mor belled, mae'n amlwg nad yw'r dasg o'i datblygu yn orffenedig a bydd raid aros am ychydig eto cyn medru asesu'r agwedd hon o'r wefan yn deg. Ond o'r dystiolaeth gychwynnol, mae'r rhagolygon yn addawol iawn.

Un o nodweddion yr hen wefan yw fod ynddi lawer o adnoddau defnyddiol i eglwysi ac unigolion, megis fideos o oedfaon a darlithoedd amrywiol, ynghyd ag ôl-rifynnau digidol o'r *Tyst*. Mae'n dda gweld eu bod yn parhau i fod yn rhan annatod o'r wefan newydd.

Un eitem y cefais flas arbennig o'i darllen oedd yr adran 'Eglwys y Mis', gan mai un o'n cymdogion agosaf, Capel y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, oedd dan sylw y tro hwn. Diddorol oedd dysgu bod gwreiddiau'r Tabernacl yn mynd yn ôl cyn belled â 500 mlynedd i'r 'Hen Dŷ Cwrdd' a sefydlwyd ar gyrion y dref. Ymhen 100 mlynedd roedd cynulleidfa'r Hen Dŷ Cwrdd wedi croesi'r afon Ogwr ac wedi sefydlu'r Tabernacl yng nghanol tref Pen-y-bont. Rhoddir sylw yn yr eitem hefyd i'r newidiadau anferth a welwyd i ganol Pen-y-bont dros yr hanner can mlynedd diwethaf wrth i'r siopau a'r stadau tai anferth symud i ardaloedd ar gyrion y dref. Serch hynny, mae'r Tabernacl yn parhau i fod yng nghanol y dref ac yn eglwys ffyniannus dros ben sy'n darparu gweithgareddau amrywiol iawn. Er ei hanes hir, mae'r gynulleidfa bellach yn cwrdd mewn adeilad modern gafodd ei agor yn swyddogol yn 1989, ac fel yr unig eglwys Gymraeg yn y dref a'r cyffiniau mae'n denu aelodau o ardal eang.

Gwefan y Tabernacl

Gan ein bod wedi tynnu sylw at wefan yn y golofn gyferbyn, carwn eich atgoffa bod Emlyn Davies wedi datgan rai misoedd yn ôl bellach ei fwriad i 'ymddeol' fel Golygydd gwefan y Tabernacl. Ac yntau wrth y llyw ers dros 12 mlynedd, mae'n teimlo bod yr amser wedi dod i drosglwyddo'r awenau i un o blith to iau'r eglwys.

Rwy'n siŵr y bydd llawer ohonoch yn cytuno bod y wefan yn ffynhonnell wybodaeth amhrisiadwy gan ei bod yn corlannu hanes cynnar yr achos ar y naill law, ynghyd â rhoi sylw i weithgareddau presennol y Tabernacl mewn un lle cyfleus. Tra bod cyfryngau mwy newydd megis *Facebook* a *WhatsApp* yn werthfawr i gael gwybod am ddigwyddiadau sydd ar fin digwydd, y wefan yw'r lle gorau i gael gwybodaeth am weithgareddau'r Tabernacl dros gyfnod o amser. Does dim rhyfedd felly bod dros 900 o ymweliadau â'r wefan bob mis. Mae Emlyn yn fwy na pharod i hyfforddi'r person fydd yn ei olynu. O'i brofiad, dywed fod angen llai na dwy awr bob wythnos i'w diweddarau. Os am ddysgu rhagor am y gwaith, cysylltwch yn uniongyrchol ag Emlyn ar emlyn.pentyrch@btinternet.com.



Cylch Cadwgan

7.30 Nos Iau
10 Mawrth 2022

Delweddau o Cynan

Yr Athro Gerwyn Williams

Trefnir gan
Gymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cyfarfod rhithiol fydd hwn.
Rhyddheir y ddolen Zoom ddechrau Mawrth.